**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf RE/OQ60992

Cefin Campbell AS
Aelod Rhanbarthol o'r Senedd
Cefin.Campbell@Senedd.Cymru

30 Mai 2024

Annwyl Cefin Campbell AS

Yng nghwestiynau llafar Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni, a'r Gymraeg ddydd Mercher 1 Mai, yn dilyn Cwestiwn 4 (Paul Davies - Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi yng ngorllewin Cymru? OQ60992), gofynnoch am y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i sefydlu comisiwn ar berchnogaeth gymunedol a fydd yn ymchwilio i ddeddfwriaeth berthnasol.

Yn dilyn argymhellion a wnaed gan ymchwiliad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd i asedau cymunedol, sefydlwyd Comisiwn Asedau Cymunedol ym mis Mawrth 2024. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am annog meddwl yn arloesol am berchnogaeth gymunedol ar dir ac asedau yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y fframwaith deddfwriaethol presennol yn cael ei archwilio ynghyd â rhwystrau posibl i berchnogaeth grwpiau cymunedol o dir ac adeiladau.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Andrew Flyn, Uwch Ddarlithydd Polisi a Chynllunio Amgylcheddol ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn ystod haf 2024, bydd Prifysgol Caerdydd yn cynnal gweithdai gydag arweinwyr a sefydliadau cymunedol o bob cwr o Gymru i ddod i ddeall pryderon a datrysiadau posibl.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.